

Dyddiad cyhoeddi: 9 Rhagfyr 2021

Cais Rhyddid Gwybodaeth

Diolch am gysylltu â'n Tîm Cysylltiadau Cwsmeriaid i dynnu sylw at eich profiad ar ein gwasanaethau a chodi eich pryderon dilynol. Deliwyd â'ch ymholiad o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (2000) yn sgil yr wybodaeth y gofynnwyd amdani.

Eich Cais

'Daliais y trê'n dau gerbyd y bore yma. Roedd capasiti'r trê'n yn rhy fach i gadw unrhyw fath o bellter cymdeithasol, gyda phobl yn gorfod sefyll wrth y drysau allan. Hefyd, nid oedd dros 90% o'r teithwyr yn gwisgo masgiau. Roeddwn i'n teimlo'n anniogel drwy gydol y daith. Dywedais wrth y gyrrwr am fy mhryderon a dywedodd wrthyf nad oedd yn rhaid i mi ddal y trê'n ac mai mater i'r heddlu oedd hwn ac nad oedd dim y gallai ei wneud. Dywedais fod dyletswydd gofal ar TrC tuag at ei deithwyr a gofynnais iddo am ei asesiad risg. Dywedodd wrthyf nad oedd ganddo un, ac y byddai'n rhaid i mi gysylltu â TrC. A fyddech cystal ag anfon copi ataf o'r asesiad risg byw sy'n ymdrin â siwrneiau teithwyr [C1]. A fyddech cystal â rhoi gwybod i mi os yw cadw pellter cymdeithasol yn berthnasol i deithio ar drenau [C2] a'r effaith y byddai gostwng nifer y cerbydau i ddau yn ei gael ar deithwyr nad ydynt yn gallu cadw pellter cymdeithasol [C3]. Nid oedd unrhyw archwiliadau i weld a oedd y cerbydau'n ddiogel. Hefyd, a yw dweud wrth gwsmeriaid nad oes rhaid iddynt ddefnyddio'r trê'n os nad ydynt yn hoffi'r amodau yn wasanaeth da i gwsmeriaid [C4]. Edrychaf ymlaen at eich ymateb i mi mewn perthynas â'r materion a nodwyd uchod'.

Atebion i'ch Cwestiynau

Cwestiwn 1

Mae copi o'n hasesiad risg strategol wedi'i atodi i'r e-bost hwn. Sylwch fod gwybodaeth bersonol wedi cael ei golygu yn unol â Rheoliad GDPR y DU ac eithriad Adran 40(2) y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (Gwybodaeth Bersonol).

Cwestiwn 2

Newidiodd y cyfreithiau cadw pellter cymdeithasol yng Nghymru ar 7 Awst 2021 ac nid oes bellach unrhyw ofynion cadw pellter cymdeithasol ar drenau. Mae gofynion masgiau wyneb gorfodol yn dal ar waith i'r rheiny sydd heb eu heithrio ac er mwyn helpu ein cwsmeriaid i gadw at y gofyniad hwn, rydym wedi cyfathrebu'n dro ar ôl tro â'n cwsmeriaid drwy ein gwefan, cyfryngau cymdeithasol a chyfryngau eraill fel hysbysebion radio a darllediadau newyddion. Mae gennym hefyd raglen o gyhoeddiadau gan y goruchwyliwr ar ein trenau, ac rydym wedi'u cynyddu'n ddiweddar wrth i nifer y teithwyr gynyddu. Yn anffodus, rydym wedi gweld gostyngiad yn nifer y teithwyr sy'n gwisgo gorchuddion wyneb, ac mae ein timau diogelwch yn gweithio'n agos gyda phartneriaid o'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig i herio'r unigolion hyn. Rôl ein goruchwyliwr yw atgoffa teithwyr o'r gofynion yn unig. Mae cyfran fawr o'r rheini sy'n cael eu herio yn hawlio esemptiad ac oherwydd nad oes gennym hawl gyfreithiol i ofyn am dystiolaeth, mae'n rhaid i ni dderbyn yr hawliadau hyn.

I'ch sicrhau chi, rydym yn parhau i weithio'n galed i orfodi'r gofyniad masgiau wyneb gorfodol. Rydym yn atal 100 o bobl bob wythnos rhag teithio ar ein gwasanaethau am beidio â chydymffurfio, ac rydym yn parhau i ddefnyddio'r ymgyrch Teithio'n Saffach i addysgu ein teithwyr, yn enwedig yn ystod oriau teithio brig a digwyddiadau mawr. Rydyn ni hefyd yn cydnabod y dryswch ymysg rhai pobl o ran pryd a lle mae angen gorchudd wyneb, ac yn ystod digwyddiad rygbi'r Chwe Gwlad yng Nghaerdydd yn ddiweddar, fe wnaethom roi 3000 o orchuddion wyneb am ddim i gefnogi teithio diogel.

Cwestiwn 3

Nid yw'r newidiadau i'r cyfreithiau cadw pellter cymdeithasol yng Nghymru ar 7 Awst 2021 yn dylanwadu ar y nifer o gerbydau sy'n cael eu neilltuo ar gyfer unrhyw wasanaeth penodol, gan fod y penderfyniadau hyn yn cael eu gwneud ar sail nifer y teithwyr a'r galw. Fel y nodwyd yn yr ateb i Gwestiwn 1, nid oes bellach unrhyw ofynion cadw pellter cymdeithasol ar drenau.

Cwestiwn 4

Mae staff rheng flaen yn cael eu hannog i dynnu sylw at ein hymgyrch Teithio'n Saffach, sy'n gweithio i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'n cwsmeriaid yn ystod y pandemig; yn ogystal â'n hadnodd gwirio capasiti sy'n caniatáu i gwsmeriaid wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch pryd yw'r amser gorau i deithio ar sail pa mor brysur mae pob gwasanaeth yn debygol o fod. Gallwch ddod o hyd i'r gwiriwr capasiti [yma](#).

Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol i chi.

Yn gywir,

Trafnidiaeth Cymru

Hawliau Apelio

Os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y cafodd eich cais ei drin a'ch bod chi'n dymuno gwneud cwyn neu wneud cais am adolygiad o'n penderfyniad, ysgrifennwch at y Pennaeth Rhyddid Gwybodaeth naill ai yn Trafnidiaeth Cymru, 3 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH neu freedomofinformation@tfw.wales. Rhaid i'ch cais gael ei gyflwyno cyn pen 40 diwrnod gwaith ar ôl derbyn y llythyr hwn. Os nad ydych chi'n fodlon â chanlyniad yr adolygiad mewnol, mae gennych hawl i wneud cais yn uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad.

Gallwch chi gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaer, SK9 5AF neu gallwch chi gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy adran 'Gwneud Cwyn' eu gwefan ar y ddolen hon: <https://ico.org.uk/make-a-complaint/>

Yr adran berthnasol i'w dewis fydd "Gwybodaeth Swyddogol neu Gyhoeddus".